CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru: Rhagfyr 2024

Diweddariad Rhagfyr 2024 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ynghylch ein datblygiadau diweddaraf, ymgynghoriadau a chynlluniau.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 3 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 3 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#160089)

**Llesiant Cymru** (https://www.llyw.cymru#160091)

**Yr economi a'r farchnad lafur** (https://www.llyw.cymru#160121)

**Addysg** (https://www.llyw.cymru#160123)

**Tai** (https://www.llyw.cymru#160125)

**Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol** (https://www.llyw.cymru#160127)

**Arolwg Cenedlaethol Cymru** (https://www.llyw.cymru#160129)

**Cyfiawnder cymdeithasol** (https://www.llyw.cymru#160131)

**Cydraddoldeb** (https://www.llyw.cymru#160133)

**Masnach** (https://www.llyw.cymru#160135)

**Trafnidiaeth** (https://www.llyw.cymru#160137)

**Y Gymraeg** (https://www.llyw.cymru#160139)

**Amaethyddiaeth a'r amgylchedd** (https://www.llyw.cymru#160141)

**Cyllid llywodraeth leol** (https://www.llyw.cymru#160143)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Poblogaeth a demograffeg (https://www.llyw.cymru#160145)

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru (https://www.llyw.cymru#160147)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o **ddiweddariadau chwarterol** (https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru), ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein **calendr i ddod** (https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil/i-ddod).

# Llesiant Cymru

Cyhoeddwyd **adroddiad blynyddol Llesiant Cymru** (https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2024) ar 26 Medi 2024. Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar lesiant yng Nghymru er mwyn ein helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn y saith nod llesiant cenedlaethol a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad yn ystyried cynnydd yn erbyn y 50 o ddangosyddion cenedlaethol, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddata perthnasol eraill. Mae'r adroddiad yn ddull allweddol o sicrhau atebolrwydd, i fod yn dryloyw ynghylch y cynnydd mae Cymru yn ei wneud tuag at ei nodau llesiant.

Yn yr un modd â 2023, mae **adroddiad hawdd ei ddeall** (https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2024) wedi cael ei gyhoeddi yn ogystal â'r prif adroddiad er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar wybodaeth ystadegol am Gymru.

Wrth inni nesáu at 10 mlynedd ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym wedi ystyried sut y gallwn barhau i ddarparu gwybodaeth newydd a ffyrdd gwell o roi gwybod am y cynnydd sydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Gan adeiladu ar adborth gan ddefnyddwyr, eleni rydym yn arbrofi gyda

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

ffordd newydd o ddangos cynnydd, gan ganolbwyntio ar y 17 o gerrig milltir genedlaethol. Mae’r cerrig milltir yn dargedau cenhedlaeth sy’n disgrifio cyflymder a maint y newid sydd ei angen mewn meysydd allweddol o dan y saith nod llesiant. Rydym wedi edrych ar y data ar gyfer pob carreg filltir ers 2015, pan ddaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i rym, ac wedi asesu a yw’r duedd wedi bod yn gwella ai peidio ers y dyddiad hwnnw.

Gallwch ddarllen mwy am y dull gweithredu a fabwysiadwyd gennym yn **y bennod o'r adroddiad Llesiant Cymru sy'n ymdrin â'r cerrig milltir cenedlaethol** (https://www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2024).

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch **ystadegau.ProsiectauBlaenoriaethUchel@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.ProsiectauBlaenoriaethUchel@llyw.cymru)

# Yr economi a'r farchnad lafur

## Yr Economi (https://www.llyw.cymrunull)

Rôl Grŵp Defnyddwyr Ystadegau Economaidd Cymru yw ymgysylltu â dadansoddwyr Llywodraeth Cymru a rhoi cyngor iddynt ar flaenoriaethau strategol a'r cynllun gwaith ar gyfer ystadegau economaidd yng Nghymru. Mae'r grŵp yn rhan o gynllun ymgysylltu â defnyddwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer ystadegau economaidd ac yn cynnig safbwynt allanol ar ystadegau a gyhoeddir o dan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae hefyd yn fforwm i rannu gwybodaeth. Cyfarfu'r grŵp ym mis Hydref – roedd yr eitemau yn cynnwys cyflwyniad gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ar ei hadolygiad systemig o ystadegau economaidd a diweddariadau ar drawsnewid yr arolwg o'r llafurlu, yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth a'r gwaith o ddatblygu tablau mewnbwn-allbwn. **Mae eitemau agenda a chyflwyniadau blaenorol, ynghyd â chylch gorchwyl y grŵp, ar gael ar-lein** (https://www.llyw.cymru/grwp-defnyddwyr-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

ystadegau-economaidd-cymru).

Rydym yn awyddus i ymestyn aelodaeth y grŵp hwn i gynulleidfa ehangach. Os hoffech ymuno â'r grŵp hwn, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn (naill ai'n hybrid neu ar-lein), cysylltwch â **DigwyddiadauGGD@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:DigwyddiadauGGD@llyw.cymru).

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi ein **dangosyddion allbynnau tymor-byr: Ebrill i Fehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/dangosyddion-allbynnau-tymor-byr-ebrill-i-fehefin-2024) sy'n dangos y symudiadau tymor byr yn allbwn diwydiannau yn y sectorau cynhyrchu, adeiladu a gwasanaethau marchnad.

Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi ein **datganiad demograffeg busnes** (https://www.llyw.cymru/demograffeg-busnes) ar gyfer data 2023. Rydym yn awyddus i gael adborth defnyddwyr ar y cyhoeddiad hwn. Os hoffech gysylltu, e-bostiwch **ystadegau.economi@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.economi@llyw.cymru)

## Y Farchnad lafur (https://www.llyw.cymrunull)

**Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) wedi nodi bod yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal cyfraddau ymateb ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i effeithio ar ansawdd y data. O ganlyniad, caiff ystadegau'r llafurlu sy'n deillio o'r Arolwg o'r Llafurlu eu labelu'n** (https://www.llyw.cymrunull)**ystadegau swyddogol sydd wrthi'n cael eu datblygu (Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/official-statistics-in-development/) hyd nes y cynhelir adolygiad pellach ac rydym yn parhau i argymell y dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn.

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein **datganiad misol yn cynnig trosolwg o'r farchnad lafur** (https://www.gov.wales/labour-market-overview), sy'n dod ag

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd. Rydym yn argymell y dylai data'r Arolwg o'r Llafurlu gael eu defnyddio ochr yn ochr â'r tueddiadau yn y mesurau eraill hyn o'r farchnad lafur er mwyn cael darlun cliriach o'r effaith y mae digwyddiadau gwahanol yn ei chael ar y farchnad lafur yng Nghymru.

Mae'r SYG yn cyflwyno Arolwg Trawsnewidiol newydd o'r Llafurlu (TLFS) a'r nod yw mai'r arolwg hwn fydd y brif ffynhonnell ddata ar gyfer gwybodaeth am y farchnad lafur yng Nghymru a'r DU yn y dyfodol. Mae'r SYG yn parhau i brofi rhai gwelliannau dylunio pellach ar gyfer y TLFS ac mae wedi nodi y bydd yn adrodd ar gynnydd yn ystod Gwanwyn 2025.

Yn ogystal â'r trosolwg misol o'r farchnad lafur, gwnaethom gyhoeddi'r diweddariad blynyddol ar **Incwm aelwydydd crynswth i'w wario rhanbarthol ar gyfer 2022** (https://www.llyw.cymru/incwm-aelwydydd-crynswth-iw-wario-rhanbarthol-2022) ym mis Medi sy'n rhoi gwybodaeth am faint o arian sydd gan unigolion mewn aelwydydd i'w wario neu i'w gynilo.

Roedd mis Hydref yn fis prysur gyda nifer o gyhoeddiadau mewn meysydd gwahanol. Gwnaethom gyhoeddi ein data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar **ystadegau'r farchnad lafur ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/ystadegaur-farchnad-lafur-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-gorffennaf-2023-i-fehefin-2024) sy'n cynnwys data ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU yn ogystal ag ardaloedd lleol. Cafodd ystadegau blynyddol o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar **gyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur rhwng mis Gorffennaf 2023 a mis Mehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-gorffennaf-2023-i-fehefin-2024) eu cyhoeddi hefyd.

Roedd y ddau allbwn hyn yn cael eu dosbarthu'n ystadegau swyddogol achrededig yn flaenorol. Bu lleihad ym maint y samplau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd hyn a'r ffaith nad yw'r arolwg wedi'i ailbwysoli i'r amcangyfrifon diweddaraf o'r

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

boblogaeth, cytunodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau y dylid atal yr achrediad hwn dros dro ac y dylai'r amcangyfrifon gael eu hailddynodi'n **ystadegau swyddogol (y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/official-statistics-policy/).

Cafodd y data diweddaraf o'r **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion** (https://www.llyw.cymru/arolwg-blynyddol-o-oriau-ac-enillion-2024) eu cyhoeddi hefyd ym mis Hydref, a oedd yn rhoi gwybodaeth am enillion cyfartalog fesul awr, wythnos a blwyddyn ar gyfer 2024.

Ar ddechrau mis Tachwedd, gwnaethom ddiweddaru ein **datganiad Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth ar gyfer 2023** (https://www.llyw.cymru/arolwg-y-gofrestr-busnesau-chyflogaeth-2023), gan gyflwyno amcangyfrifon o gyflogeion a chyflogaeth. Mae amcangyfrifon o gyflogaeth Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth fel arfer yn cael eu cyhoeddi ar lefel y DU. Fodd bynnag, mae amcangyfrifon cyflogaeth dros dro Arolwg y Gofrestr Busnesau a Chyflogaeth 2023 yn cwmpasu Prydain Fawr yn unig gan nad yw amcangyfrifon ar gyfer 2023 ar gael eto ar gyfer Gogledd Iwerddon. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn bwriadu diweddaru datganiad ystadegol 2023 gydag amcangyfrifon y DU erbyn dechrau 2025.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch **ystadegau.yfarchnadlafur@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.yfarchnadlafur@llyw.cymru)

# Addysg

Mae llawer o ystadegau ar addysg ôl-16 bellach wedi'u trosglwyddo i Medr. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ystadegau addysg bellach, chweched dosbarth ysgolion, prentisiaethau neu ddysgu oedolion, cysylltwch ag **ystadegau.addysgol16@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

(https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.addysgol16@llyw.cymru), a chaiff eich ymholiad ei drosglwyddo i'r tîm yn Medr.

## Ysgolion (https://www.llyw.cymrunull)

### Data ar bresenoldeb mewn ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data wythnosol ar **bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir** (https://www.llyw.cymru/presenoldeb-disgyblion-mewn-ysgolion-gynhelir) drwy gydol tymor yr hydref a chafwyd y cyhoeddiad cyntaf ar 19 Medi. Roedd y datganiad yn rhoi gwybodaeth wythnosol hyd at hanner tymor mis Hydref ac yna wybodaeth bob pythefnos hyd at y Nadolig. Mae'r datganiad yn cynnwys rhagor o fanylion am dueddiadau hirdymor ym maes addysg cyn ac ar ôl pandemig y Coronafeirws (COVID-19).

Gwnaethom hefyd gyhoeddi data o'r data presenoldeb blynyddol statudol a gesglir oddi wrth ysgolion uwchradd. Cyhoeddwyd y datganiad **Absenoldeb o ysgolion uwchradd: Medi 2023 i Awst 2024** (https://www.llyw.cymru/absenoldeb-o-ysgolion-uwchradd-medi-2023-i-awst-2024) ar 1 Hydref.

Caiff data o'r data presenoldeb blynyddol statudol a gesglir ar gyfer ysgolion cynradd eu cyhoeddi ar 12 Rhagfyr.

## Datganiadau ystadegol eraill (https://www.llyw.cymrunull)

Cyhoeddwyd y datganiadau ystadegol canlynol hefyd yn yr Hydref:

**Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2023 i Awst 2024** (https://www.llyw.cymru/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2023-i-awst-2024) ar 12 Medi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**Cyflawniad academaidd disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3: Medi 2023 i Awst 2024** (https://www.llyw.cymru/cyflawniad-academaidd-disgyblion-cyfnod-allweddol-3-medi-2023-awst-2024) ar 29 Awst. Yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru, dyma'r olaf mewn cyfres o allbynnau sy'n rhoi canlyniadau Asesiadau Athrawon yr hen Gwricwlwm Cenedlaethol.

**Canlyniadau dros dro arholiadau rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024** (https://www.llyw.cymru/canlyniadau-arholiadau-medi-2023-i-awst-2024-dros-dro) ar 3 Hydref – disgwylir i ganlyniadau terfynol arholiadau cael eu cyhoeddi ar 5 Rhagfyr.

**Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion** (https://www.llyw.cymru/gwaharddiadau-parhaol-chyfnod-penodol-o-ysgolion-medi-2022-i-awst-2023): Medi 2022 i Awst 2023 ar 31 Hydref

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn **ystadegau.ysgolion@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.ysgolion@llyw.cymru).

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth ar ddata'r gweithlu ysgolion, gallwch gysylltu â ni yn **educationworkforcedata@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:educationworkforcedata@llyw.cymru).

## Addysg uwch a chyllid myfyrwyr (https://www.llyw.cymrunull)

Rydym wedi parhau i gyhoeddi ein hystadegau misol ar **Geisiadau am gymorth i fyfyrwyr ar gyfer addysg uwch** (https://www.llyw.cymru/ceisiadau-am-gymorth-i-fyfyrwyr-ar-gyfer-addysg-uwch-medi-2012-ymlaen) a **Lwfansau Cynhaliaeth Addysg (LCA) a ddyfarnwyd yng Nghymru** (https://www.llyw.cymru/lwfansau-cynhaliaeth-addysg-lca-ddyfarnwyd-yng-nghymru-medi-2004-ymlaen).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Er mwyn rhoi adborth neu ar gyfer unrhyw wybodaeth bellach, anfonwch neges e-bost i **addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru).

# Tai

Ers y diweddariad diwethaf, mae'r allbynnau ystadegol canlynol wedi cael eu cyhoeddi:

**Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Awst 2024** (https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-awst-2024) (cyhoeddwyd 31 Hydref)

**Cymorth i Brynu – Cymru (Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir): Ebrill i Fehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/cymorth-i-brynu-cymru-cynllun-benthyciad-ecwiti-rennir-ebrill-i-mehefin-2024) (cyhoeddwyd 15 Hydref)

**Ystadegau ar aelwydydd a wnaeth gais i awdurdodau lleol am gymorth tai** (https://www.llyw.cymru/digartrefedd-ebrill-2023-i-fawrth-2024-html) a gweithgareddau awdurdodau tai lleol o dan **Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (deddfwriaeth y DU)** (https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/enacted): Ebrill 2023 i Fawrth 2024 (cyhoeddwyd 5 Medi)

Cysylltwch â ni drwy flwch post **ystadegau.tai@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.tai@llyw.cymru) os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

Ym mis Medi, gwnaethom gyhoeddi diweddariad chwarterol i'n hystadegau ar **Adeiladu tai newydd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/adeiladu-tai-newydd-ebrill-i-mehefin-2024).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

Yn y chwarter hwn, gwnaethom hefyd gyhoeddi erthygl ar **Ail gartrefi treth gyngor trethadwy yng Ngwynedd a Dwyfor** (https://www.llyw.cymru/ail-gartrefi-treth-gyngor-trethadwy-yng-ngwynedd-dwyfor-13-ebrill-2023-i-13-ebrill-2024), er mwyn darparu gwybodaeth sylfaenol am **gynllun peilot ail gartrefi a fforddiadwyedd Dwyfor** (https://www.llyw.cymru/cynllun-peilot-ail-gartrefi-fforddiadwyedd-dwyfor). Tynnodd yr erthygl hon sylw at newidiadau yn nifer yr ail gartrefi a oedd yn atebol i dalu'r dreth gyngor rhwng 13 Ebrill 2023 a 13 Ebrill 2024 yn ogystal â symudiadau rhwng dosbarthiadau'r dreth gyngor yn ystod y cyfnod (e.e. o ail gartref i brif breswylfa).

Cysylltwch â ni drwy flwch post **ystadegau.tai@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.tai@llyw.cymru) os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

# Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

## Ystadegau ysbytai (https://www.llyw.cymrunull)

Y chwarter hwn, gwnaethom ddiweddaru ein diweddariad misol arferol i'n **Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG** (https://www.llyw.cymru/crynodeb-perfformiad-gweithgaredd-y-gig) a'r chwarter hwn rydym wedi cyhoeddi dau allbwn ystadegol newydd gan gynnwys archwiliad dwfn o **Berfformiad y GIG ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol Cymru** (https://www.llyw.cymru/perfformiad-y-gig-ar-gyfer-byrddau-iechyd-lleol-cymru-medi-2024) a **Gofal trawsffiniol y GIG rhwng Cymru a Lloegr** (https://www.llyw.cymru/gofal-trawsffiniol-y-gig-rhwng-cymru-lloegr-2024) mewn cydweithrediad ag NHS England.

At hynny, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cyhoeddi data wedi'u diweddaru ar **Dderbyniadau i'r ysbyty.** (https://www.llyw.cymru/data-derbyniadau-ir-ysbyty-ar-lein-ebrill-2023-i-fawrth-2024)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## **Gweithlu a gwariant y GIG** (https://www.llyw.cymrunull)

Y chwarter hwn cafwyd diweddariad i'n cyfres o ystadegau chwarterol ar weithlu'r GIG, gan gynnwys: y **Gweithlu practis cyffredinol** (https://www.llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-31-mawrth-2024), **Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y GIG** (https://www.llyw.cymru/staff-gyflogir-yn-uniongyrchol-gan-y-gig-ar-31-mawrth-2024), **Absenoldeb oherwydd salwch y GIG** (https://www.llyw.cymru/absenoldeb-oherwydd-salwch-y-gig-ionawr-i-mawrth-2024) ac **Ystadegau swyddi gwag y GIG** (https://www.llyw.cymru/ystadegau-swyddi-gwag-y-gig-31-mawrth-2024).

## **Gofal sylfaenol a chymdeithasol** (https://www.llyw.cymrunull)

Yn ystod y chwarter hwn cyhoeddwyd data ar **wasanaethau deintyddol y GIG** (https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-deintyddol-gig) sy'n cynnwys gwybodaeth a gwaith dadansoddi newydd yn sgil gwelliant yn y data a gyflwynwyd.

Cafodd ystadegau blynyddol ar **Wasanaethau fferyllol cymunedol** (https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-fferyllol-cyffredinol) eu diweddaru hefyd, gyda data ar fferyllfeydd, presgripsiynau a roddwyd a gwasanaethau fferyllol a gynigiwyd.

## **Iechyd y boblogaeth** (https://www.llyw.cymrunull)

Y chwarter hwn, gwnaethom hefyd gyhoeddi diweddariad ar ystadegau blynyddol **Dechrau'n Deg** (https://www.llyw.cymru/dechraun-deg) gan gynnwys am y tro cyntaf wybodaeth am y ffordd y mae'r rhaglen wedi ehangu.

Darparwyd diweddariadau chwarterol hefyd ar gyfer **Ystadegau bwydo ar y**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**fron** (https://www.llyw.cymru/data-bwydo-ar-y-fron) a **Rhaglen Plant Iach Cymru** (https://www.llyw.cymru/rhaglen-plant-iach-cymru-2023).

## Ystadegau eraill ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (https://www.llyw.cymrunull)

Yn y chwarter hwn hefyd cafwyd diweddariadau rheolaidd i amrywiaeth o ystadegau eraill, gan gynnwys: **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010** (https://www.llyw.cymru/mesur-iechyd-meddwl-cymru-2010), **Mesurau gofal llygaid** (https://www.llyw.cymru/mesurau-gofal-llygaid-ar-gyfer-cleifion-allanol-y-gig) a **Gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu** (https://www.llyw.cymru/gwasanaethau-rhoir-gorau-ysmygu-y-gig).

Mae nifer o allbynnau eraill ar gael gan sefydliadau partner, gan gynnwys diweddariadau i'r canlynol: **Mynychder canser** (https://www.llyw.cymru/mynychder-canser-2002-i-2021) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, **Camddefnyddio sylweddau gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru** (https://www.llyw.cymru/ystadegau-camddefnyddio-sylweddau) a gwasanaethau Gofal rheoleiddiedig a lleoedd a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Cymru gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y **wefan Ystadegau ac ymchwil** (https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil) ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn **ardal iechyd a gofal cymdeithasol StatsCymru** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care).

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch **ystadegau.iechyd@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cysylltwch â ni yn **arolygon@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:arolygon@llyw.cymru) os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

### Gamblo (https://www.llyw.cymrunull)

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi'r **bwletin ar gamblo** (https://www.llyw.cymru/gamblo-arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2022-i-fis-mawrth-2023), sy'n cynnwys gwaith dadansoddi ar gyfrannu'r bobl sy'n gamblo yng Nghymru ac sy'n ystyried rhai o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â gamblo, yn seiliedig ar ymatebion i Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23.

### Trafnidiaeth (https://www.llyw.cymrunull)

Caiff y bwletin ar drafnidiaeth ei gyhoeddi ar 11 Rhagfyr. Bydd y bwletin yn ystyried sut mae pobl yng Nghymru yn defnyddio gwahanol ddulliau teithio a pha mor fodlon ydynt ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23.

## Cyfiawnder cymdeithasol

### Tlodi a chostau byw (https://www.llyw.cymrunull)

Ym mis Hydref, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Fframwaith monitro y Strategaeth Tlodi Plant ac adolygiad arbenigol annibynnol**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

(https://www.llyw.cymru/fframwaith-monitro-y-strategaeth-tlodi-plant-ac-adolygiad-arbenigol-annibynnol). Mae'r fframwaith hwn yn nodi sut y caiff data eu defnyddio i olrhain cynnydd y Strategaeth Tlodi Plant. Cynhaliwyd adolygiad o'r fframwaith gan arbenigwr academaidd annibynnol, sef yr Athro Rod Hick.

**Ar 14 Tachwedd 2024, gwnaethom gyhoeddi'r** (https://www.llyw.cymrunull)**pedwerydd datganiad mewn cyfres chwarterol o ystadegau'r Gronfa Cymorth Dewisol** (https://www.llyw.cymru/y-gronfa-cymorth-dewisol-gorffennaf-i-medi-2024), a oedd yn cynnwys dadansoddiadau manylach yn ôl oedran ac awdurdod lleol. Byddwn yn parhau i gyhoeddi diweddariadau i'r **dangosfwrdd rhyngweithiol yn cyflwyno amcangyfrifon tlodi tanwydd a data cysylltiedig ar gyfer Cymru** (https://www.llyw.cymru/tlodi-tanwydd-yng-nghymru-dangosfwrdd-rhyngweithiol). **Cyfeirir at y rhain a ffynonellau eraill o ddata ar yr argyfwng costau byw mewn blog Digidol a Data** (https://digidoladata.blog.llyw.cymru/2022/12/01/diweddariad-y-prif-ystadegydd-ble-i-gael-data-a-dadansoddiadau-ar-yrargyfwng-costau-byw/) a gyhoeddwyd gennym ym mis Rhagfyr 2022. Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data ar lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael lle bo hynny'n bosibl.

## Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)
(https://www.llyw.cymrunull)

**Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC 2025** (https://www.llyw.cymru/dangosyddion-arfaethedig-ar-gyfer-mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-mallc-2025), ochr yn ochr â **chyfres o gwestiynau ar SmartSurvey yn ceisio barn defnyddwyr** (https://ymateb.gov.wales/s/ZFASVF/). Mae'r arolwg bellach ar agor i ymatebion a bydd yn cau ar 16 Rhagfyr 2024.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

(https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru) i danysgrifio.

## Yr ymateb i'r argyfwng yn Wcráin (https://www.llyw.cymrunull)

Rydym yn parhau i weithio gyda'r SYG, y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'r llywodraethau datganoledig eraill i gynhyrchu ystadegau sy'n ymwneud â'r argyfwng yn Wcráin.

Ar 28 Tachwedd 2024, **cyhoeddodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ddata demograffig wedi'u diweddaru ar gynllun Noddi Wcráin a'r cynllun Teuluoedd o Wcráin** (https://www.gov.uk/government/publications/homes-for-ukraine-sponsorship-scheme-and-ukraine-family-scheme-visa-data-by-age-and-sex-of-applicant). Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad o'r unigolion hynny o Wcráin sydd wedi gwneud cais am fisa neu wedi derbyn fisa, neu sydd wedi cyrraedd y DU â noddwyr yng Nghymru, wedi'u haenu yn ôl oedran a rhyw, hyd at 30 Medi 2024.

Ar 28 Tachwedd 2024, **cyhoeddodd Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ddata cyflogaeth ar gyfer gwladolion Wcráin sy'n byw yn y DU** (https://www.gov.uk/government/publications/analysis-of-ukrainian-nationals-entering-employment-in-the-uk) rhwng mis Mawrth 2022 a Medi 2024. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau ar gyfer gwladolion Wcráin sy'n byw yng Nghymru, yn ôl rhyw.

Ni fydd y **cynllun Teuluoedd o Wcráin, cynllun Noddi Wcráin (Cartrefi i Wcráin) na data fisâu o dan Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin (Y Swyddfa Cartref)** (https://www.gov.uk/government/publications/ukraine-family-scheme-application-data/ukraine-family-scheme-and-ukraine-sponsorship-scheme-homes-for-ukraine-visa-data--2) yn cael eu diweddaru mwyach ar ôl 28 Tachwedd 2024. Bydd y ffigurau ar y dudalen hon yn aros ac ond fyddant yn cael eu diweddaru mwyach. Yn lle hynny, bydd y Swyddfa Gartref yn cyhoeddi ei data ar Wcráin bob chwarter drwy'r cyhoeddiadau canlynol:

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

- **Safe and Legal (Humanitarian) routes to the UK (Y Swyddfa Cartref)** (https://www.gov.uk/government/statistics/immigration-system-statistics-year-ending-june-2024/safe-and-legal-humanitarian-routes-to-the-uk)
- **Immigration system statistics data tables (Y Swyddfa Cartref)** (https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/immigration-system-statistics-data-tables)

O 28 Tachwedd 2024 ymlaen, bydd y cyhoeddiad **Ukraine Sponsorship Scheme: Visa data by country, upper and lower tier local authorit (Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Lywodraeth Lleol a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau)** (https://www.gov.uk/guidance/ukraine-sponsorship-scheme-visa-data-by-country-upper-and-lower-tier-local-authority) yn cael ei ddiweddaru bob chwarter.

## Diogelwch cymunedol (https://www.llyw.cymrunull)

Rydym wedi cyhoeddi'r cyhoeddiadau canlynol sy'n ymwneud ag ystadegau tân:

**Ystadegau gweithredol awdurdodau tân ac achub: Ebrill 2023 i Fawrth 2024** (https://www.llyw.cymru/ystadegau-gweithredol-y-awdurdod-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024) (31 Hydref)

**Ystadegau achosion tân ac achub** (https://www.llyw.cymru/ystadegau-achosion-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-mawrth-2024) (28 Tachwedd)

**Perfformiad awdurdodau tân ac achub** (https://www.llyw.cymru/perfformiad-awdurodau-tan-ac-achub-ebrill-2023-i-fawrth-2024) (28 Tachwedd)

Rydym hefyd wedi cyhoeddi'r dyddiadau cyhoeddi canlynol:

**Tanau glaswelltir** (https://www.llyw.cymru/tanau-glaswelltir) – 19 Rhagfyr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**Tanau llosgi bwriadol** (https://www.llyw.cymru/tanau-llosgi-bwriadol) – 19 Rhagfyr

Rydym yn awyddus i gael adborth gan y rhai sy'n defnyddio ein hystadegau tân. Os oes gennych ddiddordeb mewn unrhyw rai o'n hallbynnau ystadegol, cysylltwch â ni yn **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru).

## Trosedd a chyfiawnder (https://www.llyw.cymrunull)

Nid oes unrhyw gyhoeddiadau newydd sy'n ymwneud â throsedd a chyfiawnder y chwarter hwn. Anfonwch unrhyw adborth neu geisiadau i **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru).

# Cydraddoldeb

Ar 17 Hydref, gwnaethom gyhoeddi **ystadegau cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Gorffennaf 2024** (https://www.llyw.cymru/cyfrif-carafannau-sipsiwn-theithwyr-gorffennaf-2024).

Anfonwch e-bost at **YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru) os bydd gennych unrhyw adborth.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am y ffordd rydych yn defnyddio adran Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gwefan StatsCymru, neu'r hyn yr hoffech ei gael o ddata Cyfrifiad 2021, yn **ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Masnach

### Arolwg Masnach Cymru (https://www.llyw.cymrunull)

Cafodd y dadansoddiad o ddata 2022 ei gyhoeddi ar 16 Gorffennaf 2024 ac mae ar gael yma: **Arolwg Masnach Cymru: 2022.** (https://www.llyw.cymru/arolwg-masnach-cymru-2022)

Ni chaiff data eu casglu yn 2024 oherwydd pwysau cyllidebol, ond bydd hyn hefyd yn galluogi'r tîm dadansoddi i gynnal dadansoddiad manylach o ddata a gasglwyd yn flaenorol ac ailystyried yr achos busnes dros barhau â'r Arolwg Masnach yn y dyfodol.

### Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru (https://www.llyw.cymrunull)

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau **Ystadegau Masnach Ranbarthol CThEF ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru** (https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-ionawr-i-rhagfyr-2023) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben **ym mis Mehefin 2024 ar 12 Medi 2024** (https://www.gov.wales/welsh-international-goods-trade-july-2023-june-2024-headline-data). Cyhoeddwyd **Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: 2023** (https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-cymreig-2023) ar 17 Ebrill 2024, ac roedd yn cynnwys dadansoddiad pellach o ddata 2023. Ni chaiff tablau allforio cysylltiedig StatsCymru eu diweddaru mwyach gan fod data 2023 wedi'u cwblhau, yn sgil diweddaru'r dangosfwrdd rhyngweithiol yn ddiweddar.

Ochr yn ochr â'r ystadegau uchod, caiff y **dangosfwrdd masnach rhyngweithiol** (https://www.llyw.cymru/masnach-nwyddau-rhyngwladol-dangosfwrdd-rhyngweithiol) ei ddiweddaru yn unol â data'r chwarter diweddaraf. Cwblhawyd gwaith i ddiweddaru'r dangosfwrdd er mwyn cynnwys y gallu i ymdrin â data

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

mawr, ac a gyflwynodd welliannau o ran hygyrchedd, ym mis Medi 2024.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag: **ystadegau.masnach@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.masnach@llyw.cymru).

# Trafnidiaeth

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi **amcangyfrifon dros dro ar gyfer gwrthdrawiadau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu: Ebrill i Fehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-ebrill-i-mehefin-2024-dros-dro) a diweddaru ein **dangosfwrdd rhyngweithiol, gan gynnwys dadansoddiadau fel difrifoldeb anafiadau, y math o ddefnyddiwr ffordd a lleoliad gwrthdrawiadau ar fap** (https://www.llyw.cymru/gwrthdrawiadau-ffyrdd-wediu-cofnodi-gan-yr-heddlu-dangosfwrdd-rhyngweithiol). Disgwylir i'r amcangyfrifon dros dro ar gyfer gwrthdrawiadau ffyrdd a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024 gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr.

Ym mis Hydref, gwnaethom hefyd gyhoeddi **Cludo nwyddau ar ffyrdd: 2023** (https://www.llyw.cymru/cludo-nwyddau-ar-ffyrdd-2023) sy'n dangos data ar fewnforion ac allforion i Gymru ac o Gymru a gafodd eu cludo ar ffyrdd drwy ddefnyddio cerbydau nwyddau trwm cofrestredig yn y DU. Ym mis Tachwedd, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad **cludiant môr 2023** (https://www.llyw.cymru/cludiant-mor)ac, ym mis Rhagfyr, gwnaethom gyhoeddi ein datganiad **troseddau moduro 2023** (https://www.llyw.cymru/troseddau-moduro).

I roi adborth ac i wneud sylwadau, e-bostiwch **ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru (https://www.llyw.cymrunull)

Mae Trafnidiaeth Cymru yn paratoi i lansio'r Arolwg Teithio Cenedlaethol newydd i Gymru ar ddechrau 2025. Mae dadansoddiad o ganlyniadau'r peilot ar-lein cyntaf a gynhaliwyd ym mis Mai a mis Mehefin 2024 wedi llywio'r gwaith o ddylunio'r arolwg a'i fethodoleg. Mae manylion y datblygiadau hyn wedi'u cyhoeddi yn yr **adran ymchwil a datblygu ar wefan Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru** (https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru/ymchwil-a-datblygu) (Trafnidiaeth Cymru).

Cynhaliwyd ail beilot a oedd yn cynnwys 900 o aelwydydd yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024, a chafwyd 372 o ymatebion. Profodd y peilot hwn y ffordd y mae'r arolwg yn gweithio ac yn cael ei roi ar waith gan ddefnyddio pob modd cwblhau (ar-lein, ffôn ac wyneb yn wyneb). Mae Trafnidiaeth Cymru bellach yn dadansoddi'r data sy'n dod o'r ail beilot hwn a bydd yn cyflwyno gwelliannau i brosesau a systemau arolygu cyn lansio'r prif arolwg.

Mae rhagor o wybodaeth am nodau ac amcanion y ddwy astudiaeth beilot ar gael yn **Ymchwil a datblygu (Trafnidiaeth Cymru)** (https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru/ymchwil-a-datblygu).

Yn ystod mis Medi a mis Hydref 2024, cysylltodd Trafnidiaeth Cymru â rhanddeiliaid Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru er mwyn clywed eu barn a'u dymuniadau mewn perthynas â chyhoeddiadau data posibl o Arolwg Teithio Cenedlaethol Cymru. Mae adroddiad sy'n dadansoddi rhanddeiliaid wedi'i gyhoeddi ar wefan Trafnidiaeth Cymru ac mae ar gael yn **Ymgysylltu â rhanddeiliaid (Trafnidiaeth Cymru).** (https://trc.cymru/prosiectau/arolwg-teithio-cenedlaethol-cymru/ymgysylltu-a-rhanddeiliaid)

Gellir anfon unrhyw sylwadau, cwestiynau neu adborth pellach at y tîm yn **arolwgteithio@trc.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:arolwgteithio@trc.cymru)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Y Gymraeg

### Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (https://www.llyw.cymrunull)

**Cyhoeddwyd data ar y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r  Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2024** (https://www.llyw.cymru/data-am-y-gymraeg-or-arolwg-blynyddol-or-boblogaeth-gorffennaf-2023-i-fehefin-2024) ar 9 Hydref. Gwnaethom hefyd ddiweddaru ein **tablau StatsCymru (Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: y Gymraeg)** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language) er mwyn cynnwys y data diweddaraf.

Roedd yr amcangyfrifon hyn yn cael eu dosbarthu'n ystadegau swyddogol achrededig yn flaenorol. Bu lleihad ym maint y samplau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Oherwydd hyn a'r ffaith nad yw'r arolwg wedi'i ailbwysoli i'r amcangyfrifon diweddaraf o'r boblogaeth, cytunodd y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau y dylid atal yr achrediad hwn dros dro ac y dylai'r amcangyfrifon gael eu hailddynodi'n **ystadegau swyddogol (Y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau)** (https://osr.statisticsauthority.gov.uk/policies/official-statistics-policies/official-statistics-policy/).

### Arolwg defnydd iaith (https://www.llyw.cymrunull)

Bwriadwn gyhoeddi gweddill y tablau data ar gyfer Arolwg Defnydd Iaith 2019-20 yn fuan. Bydd y taenlenni hyn yn cynnwys dadansoddiadau pellach i ategu'r crynodebau pwnc presennol. Ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, bydd y tablau ar gael i'w lawrlwytho o dan y pennawd thematig perthnasol ar dudalen we'r **Arolwg Defnydd Iaith** (https://www.llyw.cymru/arolwg-defnydd-iaith). Mae tablau data ar y **Defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle** (https://www.llyw.cymru/defnydd-or-

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

gymraeg-yn-y-gweithle-arolwg-defnydd-iaith-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020) a'r **Defnydd o'r Gymraeg gyda darparwyr gwasanaethau** (https://www.llyw.cymru/defnydd-or-gymraeg-gyda-darparwyr-gwasanaethau-arolwg-defnydd-iaith-gorffennaf-2019-i-fawrth-2020) eisoes ar gael.

## Ceisiadau ystadegol ad-hoc (https://www.llyw.cymrunull)

Cyhoeddwyd data ar **amlder siarad Cymraeg yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran, blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2024** (https://www.llyw.cymru/ceisiadau-ystadegol-ad-hoc-9-i-20-medi-2024) o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth mewn ymateb i gais ystadegol ad-hoc ar 30 Medi.

## Data ar y Gymraeg y tu allan i Gymru (https://www.llyw.cymrunull)

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ddata cynhwysfawr ar siaradwyr Cymraeg y tu allan i Gymru a allai roi darlun cywir o siaradwyr Cymraeg yn Lloegr neu weddill y DU. Fel rhan o'n **rhaglen waith ar y cyd â'r SYG, byddwn yn dogfennu gofynion defnyddwyr ar gyfer data am y Gymraeg y tu allan i Gymru** (https://www.llyw.cymru/cynllun-gwaith-ar-y-cyd-y-swyddfa-ystadegau-gwladol-llywodraeth-cymru-ar-gydlyniad-ystadegau-ar-y-gymraeg).

Os ydych yn defnyddio ystadegau ar y Gymraeg a bod gennych unrhyw sylwadau ar ddata ar y Gymraeg ar gyfer y boblogaeth sy'n byw y tu allan i Gymru, neu ar y gofynion o ran y data hynny, cysylltwch.

Os oes gennych unrhyw adborth neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar ein gwaith, e-bostiwch: **dataiaithgymraeg@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:dataiaithgymraeg@llyw.cymru).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

## Datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd (https://www.llyw.cymrunull)

**Cafodd y ffigurau blynyddol diweddaraf ar gasglu ac ailgylchu gwastraff awdurdodau lleol ar 31 Hydref** (https://www.llyw.cymru/adroddiad-rheoli-gwastraff-trefol-awdurdod-lleol-ebrill-2023-i-mawrth-2024). Mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Cânt eu defnyddio i fonitro cynnydd awdurdodau lleol yng Nghymru tuag at gyflawni eu targedau ailgylchu.

E-bostiwch **ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.amgylchedd@llyw.cymru) i gael rhagor o wybodaeth.

# Cyllid llywodraeth leol

## Gwariant alldro refeniw (https://www.llyw.cymrunull)a chyfalaf

**Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi manylion** (https://www.llyw.cymrunull)**Refeniw a gwariant cyfalaf alldro awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24** (https://www.llyw.cymru/refeniw-gwariant-cyfalaf-alldro-awdurdodau-lleol) a **data refeniw a chyfalaf cysylltiedig ar StatsCymru** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/).

## Cronfeydd wrth gefn (https://www.llyw.cymrunull)ysgolion

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi manylion am **gronfeydd wrth gefn**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**cyffredinol** (https://www.llyw.cymru/cronfeydd-wrth-gefn-ysgolion)ysgolion ar 31 Mawrth 2024 yn ôl awdurdod lleol a **manylion llawn yn ôl ysgol unigol ar StatsCymru** (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Delegated-School-Outturn).

## Poblogaeth a demograffeg

Am ragor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru).

## Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

### Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau
(https://www.llyw.cymrunull)

E-bostiwch: **desg.ystadegau@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:desg.ystadegau@llyw.cymru)

Ffôn: 03000 255050

### Pwnc-benodol (https://www.llyw.cymrunull)

**Cysylltiadau ar gyfer ystadegau** (https://www.llyw.cymru/cysylltiadau-ar-gyfer-ystadegau)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Twitter/X (https://www.llyw.cymrunull)

**@YstadegauCymru** (https://x.com/ystadegaucymru)

## Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru (https://www.llyw.cymrunull)

**Newyddion a hysbysiadau** (https://www.llyw.cymru/subscribe/announcements)

## Ymholiadau gweinyddol (https://www.llyw.cymrunull)

E-bost: **kasadmin@llyw.cymru** (https://www.llyw.cymrumailto:kasadmin@llyw.cymru)


**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-rhagfyr-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).